

Adrodd i rieni/gofalwyr – Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Cyflwyniad

Ar bob lefel yn ein hysgol, rydym wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o'r pwysau sydd ar amser staff o ganlyniad i farcio gwaith dysgwyr, a sut y gall hyn gael effaith negyddol ar les athrawon, heb gael effaith gadarnhaol gymesur ar gynnydd a llesiant dysgwyr. Ddwy flynedd yn ôl, datgelodd sesiynau llais y dysgwyr yn glir sut yr oedd dysgwyr yn gweld yr adborth a roddwyd iddynt. Er eu bod yn gwerthfawrogi ymdrechion eu hathrawon, daeth yn amlwg bod rhai athrawon wedi cracio'r cod ac wedi ymgysylltu â'r plant i sbarduno eu dysgu eu hunain drwy eu sylwadau, yn ysgrifenedig ac ar lafar, tra bod eraill wedi buddsoddi amser mewn marcio, ond heb fawr o effaith ar y dysgwr. Ar yr un pryd, roedd un o'n triadau staff wedi bod yn treialu rhai mathau mwy arloesol o adborth, ac roedd y canlyniadau'n gyffrous iawn. Roeddent wedi mynychu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) mewn ysgol leol ac wedi cynnal adolygiad o lenyddiaeth ynghylch dulliau effeithiol o roi adborth. Roeddent yn hyderus y gellid defnyddio rhai o'r dulliau hyn ym mholisi a champau gweithredu ein hysgol. Cychwynnodd y llwybr hwn i ddechrau gyda ffocws ysgol gyfan 3–19 yn ystod y flwyddyn gyntaf; yn ystod y ddwy flynedd ddilynol, datblygwyd adborth gennym yn ein sector uwchradd.

Meddylfryd Twf a Metawybyddiaeth

Daeth hi'n amlwg bod angen dull ysgol gyfan newydd, cydlynol. Byddai gwella adborth athrawon yn cynyddu ymgysylltiad dysgwyr yn eu dysgu eu hunain, a byddai hefyd yn galluogi'r dysgwyr i roi adborth mwy defnyddiol i'w cymheiriaid fel y'i modelir gan eu hathrawon. Byddai cefnogi'r dysgwr i gymryd mwy o reolaeth a pherchnogaeth dros eu dysgu yn grymuso'r dysgwr ac yn cael effaith gadarnhaol ar ei ymddygiad, yn ogystal â'i gynnydd yn ei ddysgu. Yn hollbwysig, byddai'n cyfrannu hefyd at y pedwar diben. Yn ogystal â hyn, byddai dull â ffocws yn gwella llesiant staff gan y byddai effaith gadarnhaol o'u gwaith caled, a byddai eu marcio'n canolbwyntio ar dasgau penodol, gan leihau eu llwyth gwaith.

Cynlluniwyd rhaglen datblygu staff ysgol gyfan er mwyn gwella adborth athrawon, gan wella ymateb ac ymgysylltiad dysgwyr. Un o'n meysydd i'w datblygu yn ein hunanwerthusiad ysgol oedd annog annibyniaeth ein dysgwyr, gan feithrin eu cyfrifoldeb a rhoi mwy o lais iddynt yn eu dysgu eu hunain. Pan fydd athrawon a dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut mae dysgwyr yn dysgu ac yn adnabod meysydd i'w gwella, gall dysgwyr ddechrau gosod nodau iddyn nhw eu hunain ac i gymheiriaid, a meithrin gwydnwch wrth wynebu her. Un cam fyddai gwella ymgysylltiad dysgwyr ag adborth athrawon ac felly eu dysgu drwy weithredu rhagor o ddysgu proffesiynol ysgol gyfan ar adborth. Fe ddechreuon ni arni drwy wahodd hyfforddwr allanol a ddarparodd sesiwn diwrnod ar feddylfryd twf ac, fel agwedd ar hynny, metawybyddiaeth.

Ynghyd â'r dysgu proffesiynol hwn, cafwyd cymorth mewnol parhaus, troeon dysgu, sesiynau llais y dysgwyr a phroses o fonitro gwaith dysgwyr ar lefel adrannol a chan yr uwch dîm arwain a thrwy gyfarfodydd staff. Cymerodd y staff ran mewn cwrs dwys wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion ein hysgol a ddarparwyd gan asiantaeth allanol. Yr egwyddorion ar gyfer ein holl ddisgyblaethau oedd ysgrifennu adborth adeiladol a phenodol a oedd yn sicrhau bod y dysgwr yn canolbwyntio ar wella'r darn penodol hwnnw o waith, ac yn cefnogi ei ddatblygiad tymor hwy. Awgrymwyd llawer o dechnegau gwahanol, ond roedd yr egwyddorion yr un fath. Trafodwyd hefyd yr anawsterau a brofir wrth gael asesiad gan gymheiriaid o ansawdd da a sut roedd hyn yn ymwneud â'r adborth a fodelir gan athrawon. Roedd cyfarfodydd adrannol a chyfarfodydd staff yn cynnwys amser i drafod y strategaethau hyn a cheisio cymorth yn ystod y flwyddyn. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, gwahoddwyd ymarferwyr llwyddiannus o ystod eang o ddisgyblaethau yn yr ysgol i rannu eu dulliau a oedd wedi hen ennill eu plwyf, gan ddangos sut roedd ein dysgwyr wrthi'n cau'r bylchau yn eu dysgu pan gânt eu herio.

Gydol y cyfnod hwn, roeddem yn treialu ac yn gwerthuso gwahanol ddulliau gyda'r bwriad o ailysgrifennu ein polisi adborth ysgolion. Arweinwyr adrannol oedd yn monitro gwaith dysgwyr, mewn cydweithrediad â'u rheolwyr llinell o'r uwch dîm arweinyddiaeth. Roedd hyn yn ein galluogi i ddeall adborth o wahanol safbwyntiau a chafodd hyn ei atgyfnerthu gan gyfraniad dysgwyr yn y sesiynau llais y dysgwyr. Cwblhawyd ein polisi adborth newydd ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf hon, ac roedd yn cynnwys amryw o awgrymiadau ar gyfer adborth a oedd yn ymestyn y cysyniadau asesu ar gyfer dysgu. Roeddem hefyd yn ymwybodol iawn o'r angen i'r polisi newydd gael ei gymhwyso gan bob adran ac, yn dilyn trafodaethau a phroses fonitro gydag arweinwyr adrannau, aethom ati i gynnwys adborth llafar ac ysgrifenedig yn y polisi.

Ym mis Mawrth yr un flwyddyn, cadarnhaodd adroddiad Estyn ar gyfer yr ysgol (Mawrth 2019) ganfyddiadau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth fod y rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar gwerthfawr ar waith ac ymdrech dysgwyr a bod llawer o athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig pwrpasol ar waith dysgwyr, a oedd yn galluogi dysgwyr i wybod sut i wella. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid oedd sylwadau athrawon yn ddigon penodol i ddysgwyr wybod yn union beth yr oedd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Munudau Mwy

Rhoddodd adroddiad Estyn ffordd glir ymlaen i ni. Y flwyddyn ganlynol, ym mis Medi 2019, ymglyfarwyddodd staff ymhellach â'r polisi asesu newydd ac fe'u cyflwynwyd i'n fersiwn ein hunain o'r model amser myfyrio gwelliant penodedig (DIRT) ar gyfer myfyrio – Munudau Mwy. Byddai hyn yn arwain at wella metawybyddiaeth y dysgwyr, a byddai'n sicrhau amser myfyrio pwrpasol yn y dosbarth gydol y flwyddyn, lle'r oedd y dysgwr yn ymgysylltu'n weithredol â'r adborth a'r continwwm dysgu a lle trafodwyd a threalwyd technegau yn ymwneud â myfyrio a metawybyddiaeth. Arweiniodd hyn at Munudau Mwy, lle'r oedd hi'n ofynnol i ddysgwyr feddwl cyn ymateb, canolbwyntio ar feddwl am eu gwaith ac ymateb yn bwrpasol i adborth a

gwella safon eu gwaith. Cyflwynwyd hon fel menter ysgol gyfan, gan gyflwyno dull y gellid ei gynnal ar unrhyw adeg yn ystod y wers. Datblygwyd templedi mewn rhai disgyblaethau lle yr oedd yn briodol, yn ogystal â thasgau metawybyddol a gyflawnwyd drwy lunio cwestiynau treiddgar a oedd yn cefnogi'r broses yn ôl yr angen.

Gydol y flwyddyn ddiwethaf, dangosodd prosesau monitro gwaith dysgwyr a sesiynau llais y dysgwyr yn rheolaidd fod llawer o ddisgyblaethau wedi cynnwys dysgwyr mewn deialog dysgu effeithiol lle cafodd asesu ei ymgorffori a'i ddefnyddio i nodi a oedd angen cymorth pellach a'r camau nesaf ar gyfer cynnydd dysgwyr. Heriwyd y dysgwyr i gynyddu dyfnder neu ehangder eu gwybodaeth a/neu eu dealltwriaeth a/neu soffistigeiddrwydd. Lle bo angen, bu'n ofynnol i'r dysgwr ailadrodd neu aildefnyddio'r wybodaeth/sgiliau mewn cyd-destun newydd neu fwy heriol i'w ymestyn ymhellach. Roedd hyn yn canolbwyntio ar symud y dysgu yn ei flaen drwy ddeall y dysgu a oedd eisoes wedi digwydd a'i ddefnyddio i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei herio'n briodol. Nodweddi arall o'r athro effeithiol oedd amgylchedd dysgu cadarnhaol lle'r oedd camgymeriadau yn gyfle i ddarganfod, lle'r oedd gan ddysgwyr berthynas waith effeithiol gyda chymheiriaid ac athrawon a lle cydnabuwyd anghenion y dysgwr unigol. Roedd tasgau myfyrio hefyd a osodwyd yn briodol er mwyn i'r dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut roeddent yn dysgu a chydabod y strategaethau roeddent yn eu defnyddio i ddatrys problemau fel y gallent fabwysiadu ac addasu'r rhain mewn cyd-destunau eraill mwy heriol er mwyn gwneud cynnydd pellach.

Drwy fonitro gwaith dysgwyr a sesiynau llais y dysgwyr, yn ogystal ag ymuno â throeon dysgu, roeddent yn gallu gweld/arsylwi bod dysgwyr yn cael amser penodol yn ystod y cynllun gwaith er mwyn myfyrio ar eu dysgu. Roedd gallu'r dysgwyr i ddeall sut roeddent yn dysgu yn gwella gyda sesiynau myfyrio olynol, ac roedd hyn wedi'i ddogfennu'n dda yn y rhan fwyaf o ddisgyblaethau, gan ddangos ein bod ar y trywydd iawn i ddatblygu sgiliau metawybyddol cryf yn ein dysgwyr. Dangosodd y rhan fwyaf o'r disgyblaethau ddefnydd effeithiol o adborth llafar ac ysgrifenedig i gefnogi deialog dysgu gyda'r dysgwyr a symud y dysgu yn ei flaen.

Cyfathrebu

Y cam allweddol olaf i ni oedd cyfleu cynnydd dysgwyr mewn modd cryno ac ystyrlon i rieni/gofalwyr fel y gallent gefnogi cynnydd dysgwyr yn yr ysgol a gartref, gyda manteision ychwanegol i lesiant dysgwyr. Cafodd cyfathrebu â rhieni/gofalwyr ei wella drwy gynghori'r staff addysgu a monitro cynnwys adroddiadau ysgrifenedig i ddileu disgrifiadau o'r testunau a'r gweithgareddau a astudiwyd gan y dysgwr oni bai bod eu hangen er mwyn dangos cynnydd, cryfderau a chyflawniadau pob dysgwr unigol, meysydd i'w gwella ac, os yw'n berthnasol, unrhyw rwystrau i ddysgu. Yn ogystal, roedd y staff yn cael eu hannog a'u cefnogi'n gryf i osgoi jargon, ysgrifennu gwybodaeth gan ddefnyddio iaith sy'n hygyrch i'r rhieni/gofalwyr a chynnwys targedau tymor hwy cryno, adeiladol a phenodol wedi'u cyfeirio at y dysgwr er mwyn

symud y dysgu yn ei flaen. Cyflwynwyd agweddau eraill ar yr adroddiad, gan gynnwys addasu'r ethos a'r graddau Cymreictod er mwyn cyhoeddi gradd Ymdrech sydd hefyd yn gysyniad haws i'r dysgwyr a'r rhiant/gofalwr ei ddeall, er mwyn helpu rhieni a gofalwyr i ddehongli'r adborth.

Y prawf litmws oedd cau'r ysgolion ym mis Mawrth 2020, gallu ein dysgwyr i weithio ac ymateb yn effeithiol i ddysgu o bell, ac eglurder ein cyfathrebu â rhieni/gofalwyr i sicrhau bod digon o hygyrchedd ar gyfer adrodd ar-lein. Roedd ymateb ein dysgwyr ar-lein yn anhygoel o'i gyplysu â'r sefyllfa annisgwyl. Dim ond yr wythnos cyn i'r cyfyngiadau symud ddod i rym y cyflwynwyd Microsoft Teams i'r dysgwyr, ac, er gwaethaf yr amserlen fer hon, aeth llawer o ddysgwyr ati i brofi eu bod yn wydn a'u bod yn gallu symud eu dysgu ymlaen, gan ymateb yn gadarnhaol i'r her. Gan ddefnyddio'r canllawiau a ddarparwyd ar-lein a thrwy negeseua â'u hathrawon pan oedd angen, cyflwynodd y rhan fwyaf o ddysgwyr eu gwaith yn llwyddiannus ac, yn ystod y sesiynau gwirio a dal i fyny, fe fuon nhw'n sôn sut roeddent wedi elwa ar weithio ar eu cyflymder eu hunain.

Yr her i ni yn nhymor yr hydref fydd sicrhau ymgysylltiad ein holl ddysgwyr mewn dysgu ar-lein a chynnal dull cyfunol – does dim troi'n ôl nawr. Byddwn hefyd yn treialu dulliau gwahanol er mwyn cyflawni proses adborth ar-lein sy'n debyg i'r hyn a gyflawnwyd wrth ddysgu wyneb yn wyneb fel y gall deialog dysgu barhau o bell rhwng yr athro a phob dysgwr unigol. Rydym wedi cael ymateb ardderchog gan rhieni/gofalwyr yn ystod y cyfnod hwn i'r adroddiadau a gyflwynwyd yn electronig, a byddwn yn parhau i adolygu hyn yng ngoleuni Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) ac unrhyw ddiwygiadau eraill sydd ar y gweill sy'n gwella cydweithrediad rhieni/gofalwyr yn nysgu eu plant.